

Gwerthusiad Beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddiwyddiad beirniadol a arsylwyd.

Cyflwyniad

Yn y traethawd yma, gwerthusir achos critigol a welwyd wrth arsylwi dosbarth mewn ysgol, trwy chysylltu gyda ddibenion y cwricwlwm newydd a llenyddiaeth gwahanol. Datganir gwybodaeth cefndirol am yr ysgol ar dosbarth penodol a arsylwyd, ynglŷn a'r gwahanol ddulliau o arsylwi gall cael eu defnyddio o fewn y dosbarth. Yna, trafodir am pam mae adfyfrio'n bwysig o fewn y gyrfa o addysgu ac adfyfrio'r achos critigol, gan gasglu rhai awgrymiadau ar gyfer y camau nesaf. Yn gwyno, gofynnir y cwestiwn er mwyn defnyddio achos critigol o arsylwad o fewn ysgol er mwyn i'w gwerthuso'n feirniadol. Bu hyn wedyn yn galluogi adfyfyriad o ymarferiad yr athro, a gyda theori a llenyddiaeth, gellir awgrymu camau dysgu er mwyn gwella'r ymarferiad (os oes rhaid). Bu rhaid hefyd ystyried y pwysigrwydd o werthuso ac adfyfrio a pha wahanol modelau i fabwysiadau er mwyn seilio'r adlewyrchiad. Dywed Tripp (2012, tud. 8) gellir datblygiad o feirniadaeth proffesiynol trwy ddiagnosis a dehongliad o achosion critigol arwain at 'addysgu diagnostig'. Addysgu diagnostig yw lle mae athro yn gallu dadansoddi ei ymarferiad mewn ffordd ysgolheigaidd ac academiaidd i ddod at ddehongliadau i seilio dyfarniadau proffesiynol. Felly dangosir yn y traethawd yma sut mae defnyddio achosion critigol yn datblygu perfformiad proffesiynol.

Arsylwi

Yn y rhan yma, siaradir am amodau'r arsylwi, yn cynnwys y math o ysgol a'r math o grŵp oedd o dan arsylw. Defnyddir y canllawiau gan BERA (2018) er mwyn sicrhau bo'r cyfranogwyr yn yr arsylwad yn cael eu parchu, felly golygir bydd hunaniaeth yr ysgol a'r disgyblion yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Arsylwyd Ysgol Gyfun [REDACTED], sydd gyda 732 o ddisgyblion (Llywodraeth Cymru, 2018). Yn ôl Adroddiad Estyn yr Ysgol yma yn 2014, roedd 40% o ddisgyblion yn byw o fewn 20 ward yng Nghwm Rhondda a oedd wedi'u chynnwys yn y 50 ward mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dywed hefyd bod 17.4% o'r disgyblion yn derbyn prydau bwyd am ddim, yn agos at y canran cenedlaethol ar y pryd, 17.7% (Estyn, 2014). Er, erbyn hyn, yn ôl Llywodraeth Cymru yn 2018, derbynnir 13.7% o'r disgyblion prydau bwyd am ddim, a oedd yn is na'r canran cenedlaethol. Yn 2014, roedd llai na 1% o ddisgyblion yr ysgol gyda datganiad o anghenion addysgol arbennig tra bod 24% o

ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, a oedd yn uwch na'r canran cenedlaethol. Mae 99% o'r disgyblion gyda theuluoedd sydd yn siarad Saesneg yn y cartref. Yn adroddiad Estyn yn 2014, roedd perfformiad yr ysgol ar y cyfan yn ddigonol. Dywed bod safonau Cymraeg, Saesneg a Mathemateg yn is na'r disgwyliadau yng nghyfnod allweddol 4 ynglŷn â than-berfformiadau yng nghyfnod allweddol 3; y bechgyn yn Gymraeg a Saesneg, a'r merched ym Mathemateg. Yn ychwanegol, roedd presenoldeb yr ysgol gyda chanran cyfartalog o 93.1% (Llywodraeth Cymru, 2018) ynghyd â chyfraddiad o 3 allan o 5 gan WalesOnline (2019). Arsylwyd dosbarth Blwyddyn 11 yng ngwers Cymraeg. Roedd yn ddosbarth o dua 30 o ddisgyblion, gyda chymysgedd hafal o fechgyn a merched.

Methodoleg

Yn yr adran yma, trafodir am y gwahanol fathau o arsylwi, a pha ddull defnyddiwyd yn y dosbarth. Mae arsylwi yn bwysig fel dull ymchwil oherwydd cynigir cyfleoedd i gasglu ymchwil 'byw' i'r ymchwilydd oddi wrth sefyllfaoedd naturiol (Cohen, Manion a Morrison, 2007, tud. 396). Mae hyn yn cyd-fynd gyda beth ddywed Adler ac Adler (1994, tud. 377), yn disgrifio arsylwi fel "bedrock source of human knowledge" am y "social and natural world". Mae arsylwi gyda gofynion cymhleth, fel dywed Baker (2006, tud. 172), sydd yn gofyn i'r ymchwilydd i ddefnyddio nifer o dechnegau, yn cynnwys ei synhwyrâu, i gasglu data. Yn ôl Cohen, Manion a Morrison (2007, tud. 397), mae yna gwahanol fathau o strwythur i arsylwadau, a gosodir ar gontinwwm. Gall yr arsylwi bod yn *strwythuredig iawn*, sy'n golygu bo'r arsylwi wedi'i gynllunio ymlaen llaw a bo'r arsylwr yn gwybod beth maent yn edrych amdano. Ar ben arall y continwwm mae arsylwi *di-strwythuredig*, sy'n golygu bo' ddim paratoad i'r arsylwi. Dywed Gold (1958) (wedi'i ddyfynnu yn Cohen, Manion a Morrison, 2007, tud. 398), am gontinwwm arall ar gyfer rôl yr arsylwr. Ar un pen y continwwm yma yw'r cyfrannwr cyflawn, ac ar y pen arall, yr arsylwr cyflawn. Er taw arsylwi yw'r dull ymchwil, mae yna nifer o wahanol fathau o arsylwi sy'n pennu beth mae'r arsylwr eisiau ymchwilio mewn i. Mae Flick (1998, tud. 137) yn trafod arsylwi ar hyd 5 dimensiwn, sydd gydag agweddau tebyg a gwahanol i'r syniadau uchod. Y 5 dimensiwn yw: Arsylwi agored yn erbyn caeedig, cyfrannol yn erbyn anghyfrannol, systematig yn erbyn ansystematig, mewn sefyllfaoedd naturiol neu annaturiol a hunan-arsylwad yn erbyn arsylwi eraill. Mae'r syniad yma o ystyried arsylwi ar hyd 5 dimensiwn yn glir ac yn grynodedig da, er gall ddadlau dros ddimensiynau gwahanol, fel mae Cooper a Schindler (2001) yn eu gwneud, (wedi'u dyfynnu yn Cohen, Manion a Morrison, 2007, tud. 398). Trafodwyd am arsylwi uniongyrchol ac anuniongyrchol, os bod presenoldeb yr arsylwr yn adnabyddus neu'n anadnabyddus a rôl yr arsylwr, yn gyfrannwr neu ddim. Yn ystod arsylwad y dosbarth, defnyddiwyd dull arsylwi uniongyrchol a oedd yn eithaf agored i'r disgyblion ac o fewn sefyllfa naturiol, roedd presenoldeb yr arsylwr

ddim yn effeithio ar natur y wers a sut gyflawnwyd. Roedd yr arsylwi yn anghyfrannol, doedd yr arsylwr ddim yn cyfrannu at y wers o gwbl. Er hyn, gall bresenoldeb arsylwr cael effaith mawr ar y dosbarth, hyd yn oed os dydyn nhw ddim yn cyfrannu o gwbl. Gelwir yr effaith yma'r 'Hawthorne Effect' (Cohen, Manion a Morisson, 2007, tud 160). Yn ystod yr arsylwi penderfynwyd edrych am achos critigol. Diffinnir achosion critigol gan Tripp (1993, tud.8), a dywed bod achosion yn digwydd, ond cynhyrchir achosion critigol trwy'r ffordd edrychwyd ar y sefyllfa. Mae hyn yn cyd-fynd gyda Wragg (1994, dyfynnwyd yn Cohen, Manion a Morrison, 2007, tud.404), sy'n dweud bod achosion critigol yn ddigwyddiadau sydd yn denu mwy o ddiddordeb gan yr arsylwr nag eraill, ac yn golygu eu bod yn haeddu mwy o fanylder. Mae defnyddio achosion critigol yn ffordd dda o sicrhau dealltwriaeth a rheolaeth gyflawn o ddyfarniad proffesiynol, ac yna dros ymarfer (Tripp, 1993, tud. 24).

Pedwar Pwrpas

Yn 2014, penderfynodd Llywodraeth Cymru i ofyn i'r Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad am y cwricwlwm a'r trefniadau asesu mewn ysgolion yng Nghymru. Ar ôl ymchwil manwl a chynhwysfawr mewn i'r system addysg yng Nghymru, penderfynwyd bod rhaid i'r cwricwlwm cael pedwar pwrpas (Donaldson, 2015). Mae'r pedwar pwrpas yma yn golygu bod rhaid i blant a phobl ifanc i gyd bod yn; ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, dinasyddion moesegol a gwybodus, unigolion iachus a hyderus, cyfranwyr mentrus a chreadigol. Dywed Kirsty Williams AC yn erthygl Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl (Llywodraeth Cymru, 2017), bod "plant a phobl ifanc yn ymuno â byd sy'n newid yn gyflym ac sy'n gynyddol gystadleuol, yn gysylltiedig yn fyd-eang ac yn ddatblygedig o ran technoleg". Mae beth ddywed Kirsty Williams yn cyd-fynd gyda dibenion y cwricwlwm newydd, gyda phwyslais ar baratoi plant a phobl ifanc ar gyfer heriau'r dyfodol. Yn ystod y broses pontio, fe arsylwyd digwyddiad hoffwyd trafod mewn mwy o fanylder. Gwelwyd yr achos yn ystod gwers Cymraeg Blwyddyn 11, lle'r oedd llawer o drafodaethau a oedd yn amherthnasol i dopig y wers. Roedd prif dasg y wers yn eithaf syml, roedd y dosbarth yn darllen trwy enghraifft o waith disgybl arall ac yn uwch-oleuo cryfderau'r gwaith. Wrth i'r wers mynd ymlaen, sylweddolwyd bod un ochr o'r ystafell yn fwy siaradus na'r ochr arall. Roedd yr ochr siaradus yn cymryd sylw'r athro yn aml iawn trwy sgwrsio gyda'i gilydd a gyda'r athro, tra bo'r ochr arall yn dawelach o lawer. Roedd y sgwrsio amherthnasol yn atal llif y wers, a gall hynny wedi effeithio ar ddysgu'r disgyblion. Gellir cysylltu'r achos critigol yma gydag un o ddibenion y cwricwlwm newydd, sef i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog. Cysylltir gyda'r diben yma oherwydd doedd y disgyblion yn y wers ddim wedi cael cyfle i fod yn rhai uchelgeisiol a galluog oherwydd y sgwrsio a oedd yn digwydd yn aml. Roedd y disgyblion a oedd ddim yn cymryd rhan yn y sgwrsio yn dioddef gan fo sylw'r athro yn cael ei ddenu i le gwahanol. Efallai bod un rhan o'r dosbarth yn barod i ddysgu, ond doedden nhw ddim yn

derbyn addysg ddigonol yn ystod y wers oherwydd y sgwrsio. Ar y llaw arall, doedd ochr siaradus y dosbarth ddim yn barod i ddysgu oherwydd roeddent yn hoff o sgwrsio am bethau nad oeddent yn ymwneud â'r wers. Gellir hefyd cysylltu'r achos gyda'r dibenion 'unigolion iachus a hyderus' a 'cyfranwyr mentrus a chreadigol'. Cysylltir yr achos gyda'r dibenion yma oherwydd mae'r sgwrsio yn golygu bod awyrgylch eithaf ymlaciol i'r dosbarth, a bod e'n ddosbarth cyfforddus i'r disgyblion. Gellir hyn bod o fudd i'r disgyblion oherwydd mae'n galluogi iddynt fod yn fwy hyderus, ac mae'n creu perthynas iachus rhyngddynt a'r athro. Er, mae'r rheswm yma gyda gwendidau, megis y ffaith gall awyrgylch fel yma arwain at fwy o wrthdychiadau. Gellir golygu bo'r disgyblion ddim yn barod i gyfrannu at y wers mewn ffordd berthnasol. Mae'n amlwg bod rhaid edrych ar wahanol ddulliau i ddatblygu'r dibenion yma o fewn y dosbarth astud.

Adolygiad Llenyddiaeth

Arweinir y drafodaeth uchod am yr achos critigol at nifer o feysydd ymchwil posib. Un o'r meysydd posib yw cynlluniau eistedd mewn dosbarth. Fel soniwyd uchod, yn ystod y profiad o weld yr achos critigol, roedd yn amlwg bod y dosbarth wedi'i rhannu, gyda'r disgyblion mwyaf siaradus yn eistedd gyda'i gilydd. Mae'r achos critigol yma yn annog ymchwil mewn i ba gynllun eistedd yw'r mwyaf effeithiol yn gyffredinol, ac yn bwysicach, i sefyllfa'r dosbarth yma. Mae rhaid ystyried nifer o agweddau gwahanol wrth drafod y maes yma, gan fod cynlluniau eistedd gydag effaith mawr ar y dosbarth. Wrth arsylwi'r achos critigol, roedd y dosbarth gyda chynllun eistedd o resi a cholofnau; pedwar i bum rhes a dwy golofn.

I ddechrau, trafodir am ba fath o gynllun eistedd sydd orau am berfformiad disgyblion yn academiaidd. Mae yna wahaniaeth mewn profiad dysgu rhwng eistedd yng nghefn y dosbarth ac ar flaen y dosbarth (Fernandes, Huang a Rinaldo, 2015, tud.68). Mae hyn yn cyd-fynd gyda beth ddywed Burda a Brooks (1996) (dyfynnwyd yn Fernandes, Huang a Rinaldo (2015), tud. 68), lle dangoswyd bod gan fyfyrwyr sy'n eistedd yn agosach at flaen y dosbarth cymhelliant a chyfranogiad uwch ar y raddfa 'NachNaff'. Hefyd casglwyd bod nodweddion personoliaeth gynfodol yn cymhelli myfyrwyr i ddewis eistedd yn agosach at flaen y dosbarth. Cynigwyd rheswm posib dros y casgliad yma trwy ddweud bod ganddynt yr hunanymwybyddiaeth eu bod yn gallu neud y mwyaf o'r adnoddau dysgu sy'n fwy amlwg wrth eistedd ar flaen y dosbarth. Cytunir Minchen (2007, tud.41) gyda'r syniad uchod, trwy gasglu bod eistedd ar flaen y dosbarth yn cael effaith cadarnhaol ar allu myfyriwr i gadw deunydd addysgwyd. Ymhelaethodd gan ddweud bo'r effaith yma yn golygu gwell perfformiad wrth ateb cwestiynau sy'n berthnasol i'r cyflwyniad a chwestiynau sy'n cynnwys mynegiad o'r deunydd.

Yn ôl Haghighi a Jusan (2012, tud. 288), mae gwahanol gynlluniau eistedd yn gallu effeithio yn gadarnhaol neu'n negyddol ar berfformiad disgyblion. Dywed bod 3 prif gynllun eistedd defnyddir athrawon o fewn y dosbarth; rhesi a cholofnau, grwpiau wedi'u chlystyru a 'pedol-ceffyl'. Dyfynnwyd Bonus a Riordan (1998), a dywed bod gallu'r disgyblion i dalu sylw mewn gwersi yn cynyddu pan fo cynllun eistedd y dosbarth yn cefnogi'r math o addysgu.

Ymchwiliodd Anderson (2009, dyfynnwyd yn Haghighi a Jusan (2012), tud.291) mewn i effeithiau'r 3 dull yma. Darganfyddwyd bod disgyblion ar-dasg 97% o'r amser mewn cynllun o grwpiau wedi'u chlystyru, 91% mewn rhesi a 96% mewn cynllun 'pedol-ceffyl'. Casglwyd gall y cynlluniau eistedd yma dylanwadu ar ymddygiad ar-dasg disgyblion. Trafodir Wasnock (2010, tud.37) bod data ei arolwg yn dangos bod 87% o athrawon yn defnyddio trefniad sydd ddim yn defnyddio eistedd mewn rhesi. Cysylltwyd gydag astudiaeth Patton, Snell, Knight a Gerkin (2001) (dyfynnwyd yn Wasnock (2010), tud.37), lle dangoswyd cynnydd mewn dosbarthiadau gyda grwpiau bach wedi'u chlystyru, yn symud i ffordd o'r ffordd draddodiadol o eistedd mewn rhesi. Dywed hefyd taw'r rheswm dros ddewis y syniad o glystyru yw oherwydd cyfrannodd yn union i dyfiant addysgiadol y disgyblion trwy effeithiau dysgu cymdeithasol cynorthwyed. Er hyn, mae cynllun o eistedd mewn rhesi yn cynyddu'r pwyslais ar unigolrwydd y disgyblion, fel awgrymir Fernandes, Huang a Rinaldo (2015, tud. 69), gall y cynllun yma cynyddu ymddygiad 'ar-dasg'. Cytunir y pwynt blaenorol gyda safbwynt Hastings a Schweiso (1995, dyfynnwyd yn Carpenter, Crenshaw, Hinton a Simmons (2015), tud.54), lle ddywed bod eistedd mewn rhesi yn gwella ymddygiad ar-dasg ac ymddygiad disgyblion a oedd y mwyaf aflonyddgar. Dywed Ruhl a Wannarka (2008) dylai cynllun eistedd dibynnu ar ymarfer penodol y wers. Hefyd eglurwyd os mae disgyblion yn gweithio ar dasgau unigol, dylai'r cynllun eistedd cael ei osod fel bod e'n creu llai o ryngweithiad gyda'u cyfeillion. Yn ychwanegol, dangosir bod well ddefnyddio cynlluniau eistedd o grwpiau bach wrth ffocysu ar ymarferion disgybl-canolog (Martin, 2002, dyfynnwyd yn Fernandes, Huang a Rinaldo, (2015), tud.69). Ar y llaw arall, mae eistedd mewn grwpiau yn lleihau ymddygiad ar-dasg, felly yn llai effeithiol nag eistedd mewn rhesi yn yr achos yma yn ôl Carpenter, Crenshaw, Hinton a Simmons (2015, tud.55). Casglwyd bod eistedd mewn grwpiau oedd y lleiaf buddiol o ran cwblhau gwaith annibynnol. Dywed bo'r cynllun eistedd yma yn caniatáu i ddisgyblion i weithio mewn grwpiau a rhannu syniadau, er roedd llawer o ymddygiadau bant-o-dasg. Darganfyddwyd taw'r cynllun eistedd gyda'r nifer lleiaf o ymddygiadau bant-o-dasg oedd eistedd mewn rhesi. Yn y tri chynllun eistedd, yr ymddygiad fwyaf cyffredin oedd siarad amherthnasol. Nodwyd bod cyfathrebu wedi'i phwysleisio'n fwy ac yn cynyddu pan fo'r disgyblion yn eistedd mewn cynllun eistedd hanner-cylchog, sy'n gwreiddio o'r cynllun eistedd 'pedol-ceffyl' (*horseshoe*).

Felly mae yna nifer o wahanol ddulliau cynllun eistedd sydd yn effeithio ar ddatblygiad academiaidd disgyblion. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod disgyblion sydd yn eistedd ar flaen y dosbarth yn dueddol o wneud y cynnydd mwyaf yn eu gwaith. Er hyn, dyw hi ddim yn bosib rhoi pob disgybl ar flaen y dosbarth. Does dim cynllun eistedd perffaith sydd yn gweithio ar gyfer pob gwers. Awgrymir nifer o ymchwilwyr megis Carpenter, Crenshaw, Hinton a Simmons (2015, tud.64), dylai'r gwersi sy'n cael ei ddysgu penderfynu pa gynllun eistedd sydd orau.

Mae dewis y cynllun eistedd gorau ar gyfer y dosbarth yn fuddiol iawn i reoli ymddygiad disgyblion. Dywed Carpenter, Crenshaw, Hinton a Simmons (2015, tud.64) bo'r pwynt blaenorol yn golygu gall yr athro gwario mwy o amser yn addysgu a chyrraedd anghenion y disgyblion. Ychwanegir Ruhl a Wannarka (2008) bod cynlluniau eistedd hefyd yn helpu rheoli disgyblion sy'n cael eu gwrthdynnu'n hawdd.

Gellir cysylltu'r achos critigol a drafodwyd yn flaenorol gydag adeiladaeth gymdeithasol. Mae adeiladaeth gymdeithasol yn ddull effeithiol iawn ar gyfer addysg disgyblion oherwydd ei fod yn ymgorffori cyfathrebu cymdeithasol a chydweithrediad (Powell a Kalina, 2009, tud. 243). Adeiladaeth gymdeithasol oedd syniad Lev Vygotsky, a gredodd bod hyn yn rhan allweddol o addysg plant. Pwysleisir Pritchard a Woollard (2010) y ffaith bod dysgu yn weithgaredd cymdeithasol. Ychwanegwyd, fel dysgwyr, mae pobl yn dibynnu ar gyfathrebu cymdeithasol gydag eraill o gwmpas ar gyfer y stimwlws, sialens a gweithgaredd cymdeithasol. Mae'r rhain yn hybu sgiliau meddwl, ymrwymiad gyda syniadau a gweithgareddau, ynghyd â galluogi tyfiant deallusol, yn cynnwys y cynnydd mewn gwybodaeth a dealltwriaeth. Dywed bod Vygotsky gyda'r gred bod rhyngweithiadau cymdeithasol yn cynyddu lefel a sgiliau meddwl plentyn. Dywed hefyd am rai o'r prif brosesau o fewn adeiladaeth gymdeithasol; bod dylanwad y bobl o gwmpas y dysgwr yn cael rôl ganolog mewn dysgu a sut mae'r dysgwr yn gweld y Byd, sy'n cysylltu'n amlwg gyda'r achos critigol yn Atodiad 8 (gweler atodiadau) . Y rheswm dros hyn yw bo'r disgyblion a oedd yn eistedd ar yr ochr tawelach yn cael dylanwad positif ar ei gilydd gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio ar y dasg yn fwy na'r ochr arall. Ar y llaw arall, roedd disgyblion yr ochr mwy siaradus yn cael dylanwad negyddol ar ei gilydd oherwydd roedd y trafod yn effeithio ar ddysgu'r disgyblion a oedd yn eistedd yn agos. Hefyd, trafodir Pritchard a Woollard (2010) am wahanol ffyrdd o ryngweithiad cymdeithasol gellir hybu er mwyn gwella dysgu. Trafodwyd am weithio'n gydweithredol at nod gyffredin gyda dysgwyr yn rhannu cyfrifoldebau ynghyd â chyd-weithio tuag at goliau unigol ond hefyd yn cefnogi a helpu dysgwyr eraill. Yn ychwanegol, siaradwyd am addysgu'r dysgwr lle derbyniwyd cyngor cyffredinol mewn cyfrwng personol. Pwysleisiwyd dylai athrawon hybu iaith ac ymddygiad sydd ynglŷn ag ethos yr ysgol trwy esiampl o'u hymddygiad nhw, cyfarwyddyd i'r disgyblion a chyfryngu mewn trafodaethau. Yn olaf, casglodd Pritchard a

Woollard (2010), egwyddorion ar gyfer gweithredoedd athrawon o fewn dosbarth cymdeithasol. Nodir bod e'n bwysig adnabod cod ymddygiad neu reolau dosbarth yn ymwneud gyda siarad ac ymddygiad y dysgwyr yn gyffredinol. Hefyd, pwynt pwysig a ddywed yw i gefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol y dysgwyr trwy drafodaethau dosbarth-cyfan a grŵp. Mae sgwrsion fel arfer gyda pherson mwy gwybodus, fel athro, er gellir bod gyda chyfeillion (Pritchard, 2009). Ychwanegwyd bo'r adeiladu a chynwriad o syniadau sy'n digwydd mewn trafodaethau yn debygol i wella dealltwriaeth o leiaf un o'r cyfranogwyr am dopig y drafodaeth. Gellir cysylltu'r syniad yma gyda'r achos critigol oherwydd awgrymir bo'r ochr mwyaf siaradus y dosbarth, a oedd yn derbyn mwy o sylw gan yr athro, yn cael mwy o gyfle i ddysgu am y topig, er doeddent ddim yn canolbwyntio ar dasg trwy'r amser. Ar y llaw arall, gellir dadlau bo'r ochr tawelach yn gwella'u dealltwriaeth yn fwy oherwydd roeddent yn talu mwy o sylw i beth roedd yr athro yn dweud am dopig y drafodaeth. Mae'r adeiladaeth gymdeithasol hefyd yn cyfeirio at sgaffaldio a'r "Zone of Proximal Development" (ZPD). Y ZPD yw sefyllfa o ddealltwriaeth sydd jyst uwchben lefel dealltwriaeth y disgybl, lle mae rhaid cael cymorth o athro neu oedolion eraill i'w chyrraedd (Pritchard, 2009). Yn y parth yma, gall y dysgwr gweithio'n effeithiol, er dim ond gyda chefnogaeth. Gellir dadlau bo'r disgyblion yn yr achos critigol sydd ar ochr tawelach y dosbarth ddim yn derbyn y gefnogaeth sydd angen er mwyn cyrraedd y ZPD oherwydd bod sylw'r athro mewn man arall.

Adfyfrio/Gwerthuso a'r Camau Nesaf

Adfyfrio beirniadol yw'r broses o ymholi er mwyn ceisio darganfod ac ymchwilio mewn i dybiaethau sy'n amlinellu sut mae ymarferwyr yn gweithio (Brookfield, 1998, tud. 197). Dywed Shandomo (2010, tud. 112) bod adfyfrio critigol yn buddio athrawon trwy roi dealltwriaeth ddofn o'r ffyrdd mae eu harddull dysgu yn gwella'u gallu i herio'r modd traddodiadol o ymarferiad. Hefyd, mae'n diffinio sut y byddent yn tyfu tuag at fwy o effeithlonrwydd fel athrawon. Casglodd Howard (2003, tud. 201) bo'r pwrpas o adfyfrio critigol yw gwella ymarferiad, ail-feddwl athroniaethau ac i fod yn athrawon mwy effeithiol.

Mae Brookfield (1998, tud. 198-201) yn trafod am bedwar gwahanol ffurf o adfyfrio'n gritigol; trwy edrych ar ein hunangofiant fel dysgwyr o ymarferiad adfyfyriol, trwy edrych o safbwynt y dysgwyr, trwy edrych o safbwynt canfyddiadau cyd-weithwyr a thrwy edrych ar theori a llenyddiaeth. Mae edrych ar hunangofiant fel dysgwyr yn helpu sylweddoli ac esbonio rhannau o addysgeg yr athrawon maent yn teimlo'n gryf amdano, er dydynt ddim yn gysylltiedig gydag unrhyw fodel addysgol. Amlinellir y pwynt yma bod profiadau athrawon fel dysgwyr yn effeithio ar yr addysgeg maent yn defnyddio, a gellir hyn wedyn lleihau effeithlonrwydd yr athro wrth addysgu. Dywed bod edrych trwy lygaid y dysgwr yn helpu

athrawon i ddysgu'n fwy ymatebol. Mae cael syniad o sefyllfa a barn y disgyblion am yr addysgeg yn helpu'r athro. Pwysleisiwyd y syniad o geisio bod tu fewn i bennau'r disgyblion er mwyn gweld y dosbarth sut maen nhw'n eu gweld. Yna, soniwyd am edrych o safbwynt canfyddiadau cyd-weithwyr, sy'n helpu sylweddoli bod problemau a feddylwyd yn unigryw, hefyd yn digwydd i bobl eraill. Yn olaf, trafodwyd y syniad o adfyfrio trwy edrych o'r safbwynt o lenyddiaeth a theori. Mae'r safbwynt yma yn helpu i athrawon sylweddoli gall arwyddion o fethiant personol mewn gwirionedd cael eu dehongli fel canlyniad o rai prosesau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol.

Wrth edrych ar yr ymchwil casglwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth, mae yna nifer o agweddau sy'n berthnasol i achos critigol Atodiad 8 (gweler atodiadau). I ddechrau, trafodwyd am gynlluniau eistedd. Y prif bwynt o'r adran yma oedd dylai cynlluniau eistedd o fewn dosbarth adlewyrchu'r fath o wers neu'r dull addysgu. Yn achos critigol Atodiad 8, gweler bo'r wers yn un eithaf rhyngweithiol, gyda'r athro yn arwain trafodaeth dosbarth am brif weithgaredd y wers. Yn ôl y llenyddiaeth, y dull cynllun eistedd o eistedd mewn rhesi oedd y gorau ar gyfer gweithgareddau annibynnol. Er mwyn atal trafodaethau amherthnasol, eistedd mewn rhesi yw'r cynllun gorau, gan ei fod gyda'r lleiaf o ryngweithiad gwyneb-i-wyneb. Felly oherwydd bod dim gwaith grŵp yn digwydd, roedd y cynllun o eistedd mewn rhesi yn un delfrydol. Er hyn, o'r llenyddiaeth uchod, yn bennaf yr adeiladaeth gymdeithasol, gellir awgrymu bo'r disgyblion yn eistedd mewn lleydd anghywir. Dywed bod disgyblion sy'n eistedd arbwys ei gilydd yn cael dylanwad ar ei gilydd, yn gymdeithasol. Awgrymir hyn bod rhaid ceisio osgoi rhoi'r disgyblion mwyaf siaradus arbwys ei gilydd. Gall ddull o roi'r disgyblion mwyaf siaradus arbwys disgybl tawelach dylanwadu'r ddau ddisgybl yn wahanol. Defnyddiwyd y ffurflenni BWA (gweler yn atodiadau 5, 6, 7 a 8), neu fel arall, y Model Adfyfrio Gibbs (1988, dyfynnwyd yn Finlay, (2008), tud. 8). Defnyddiwyd er mwyn adfyfrio ar y digwyddiadau critigol arsylwyd. Mae'r model yma yn cynnwys casglu teimladau'r unigolyn am y digwyddiad, gwerthuso, dadansoddi, casglu a chynllunio cynllun gweithredu am y digwyddiad. Dywed Finlay (2008, tud.8) bo'r model yma yn cynnig cwestiynau sylfaenol i roi cymorth ar gyfer adfyfrio, er gellir dadlau bod dull mwy eang ac ymatblyg critigol sydd angen. Ychwanegwyd bod rhaid ceisio darganfod modelau mwy manwl er mwyn cyrraedd lefelau uwch o ymarferiad proffesiynol ac addysg. Datblygodd Jay a Johnson (2002, tud.77) teipoleg o adfyfrio a oedd yn cynnwys tri dimensiwn; disgrifiadol, cymharol ac adfyfrio critigol. Dywed Finlay (2008, tud.9) bo'r model yma yn adnabod lefelau gwahanol o adfyfrio, a'i bod wedi profi'n ddefnyddiol pan fynegwyd i wahanol lefelau o anghenion y dysgwr. Awgrymir Finlay (2008, tud.16) egwyddorion o sut i adfyfrio'n effeithiol: cyflwyno adlewyrchiadau gyda gofal, darparu cefnogaeth, amser, cyfleoedd a dulliau ar gyfer

adfyfyrir, datblygu sgiliau o ddadansoddi'n gritigol a chadw cyfrif o gyd-destun yr adlewyrchiad.

Casgliad

Yn ystod y cyfnod arsylwi gwersi yn yr ysgol, defnyddiwyd dull arsylwi a oedd yn anghyfrannol i edrych am yr achos critigol. Ar ôl cysylltu'r achos critigol gyda phedwar pwrpas cwricwlwm newydd Donaldson ac edrych ar y llenyddiaeth am feysydd cysylltiedig, gwerthuswyd yr achos. Trafodwyd am y gwahanol ddulliau o arsylwi, lle ddefnyddiwyd y Model Adfyfyrir Gibbs (1988, dyfynnwyd yn Finlay, (2008)). Fel trafodwyd, roedd y dull yma yn un eithaf syml a sylfaenol, sy'n haws i'w ddilyn na modelau eraill. Gellir defnyddio modelau mwy manwl er mwyn cyfleu gwerthusiad mwy cadarn. Defnyddir modelau fel y rhai trafodwyd uchod oherwydd rhain sy'n gyrru cynnydd mewn ymarferiad proffesiynol.

Ryddhaodd Llywodraeth Cymru (2017) model newydd am safonau proffesiynol ar gyfer athrawon. Trafodwyd am bum safon broffesiynol ar gyfer dysgu ac arwain, sy'n cynnwys; addysgeg, arweinyddiaeth, cydweithio, arloesedd ac yn bennaf dysgu proffesiynol. Dywed dylai athrawon ymestyn eu dealltwriaeth, sgiliau a'u gwybodaeth a gallu dangos sut mae adfyfyrir yn datblygu addysgeg. Ar gyfer athrawon SAC, dywed bod rhaid i'r athro dangos dealltwriaeth hyderus o theorïau ac ymchwil am asesiad, addysgeg, datblygiad plentyn a llencynnaidd (*adolescent*) a dysgu sy'n berthnasol i gynllunio ac ymarferiad dydd-i-ddydd. Gellir cysylltu'r uchod gyda'r traethawd yma oherwydd defnyddir ymchwil o'r achos critigol ynghyd â theori yn yr adolygiad llenyddiaeth er mwyn gwella dealltwriaeth am addysgeg. Mae'r dull defnyddiwyd yn y traethawd yma yn un defnyddiol ar gyfer gwella datblygiad proffesiynol, felly bydd yn fuddiol i'w ail-adrodd yn aml wrth addysgu. Sonnir Llywodraeth Cymru (2017) am y drwydded teithio dysgu proffesiynol sydd yn cadw cofnod o'r agweddau trafodwyd yn y traethawd, megis ymchwil, theori a gwerthusiadau.

Cyfrif Geiriau: 3969

Atodiadau

Atodiad 1

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad:26/09/19
Manylion y wers: Mynd trwy enghraifft o ddyddiadur ar gyfer cymeriad o stori. Adnabod yr holl nodweddion arddull.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) - Ambell i ddisgybl ddim yn canolbwyntio, yn siarad ac yn chwerthin gyda ffrindiau.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) - Pwrpas y wers oedd paratoi'r disgyblion ar gyfer ysgrifennu dyddiadur. - Mynd dros eirfa oedd yn berthnasol i brif dasg y wers ac i atgoffa o brif ddigwyddiadau'r stori. - Edrych ar enghraifft o ddyddiadur- Mynd dros fel dosbarth- edrych ar agweddau da'r Gwaith.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Roedd pob gweithgaredd yn hawdd i ddilyn i'r disgyblion.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) - Roedd y brif dasg yn cynnwys yr holl ddosbarth, felly roedd yn hawdd dilyn y wers. - Roedd yr athro yn cwestiynu disgyblion- roedd yn pigo disgyblion - Trio cael disgyblion i ymhelaethu are eu hatebion.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? - Cwestiynau ar ddechrau'r wers am eirfa i neud gyda'r stori maent yn astudio. Cwestiynu yn ystod prif dasg y wers am ramadeg Cymraeg. Cwestiynu- wedyn yn gofyn iddynt ymhelaethu are eu hatebion.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? - Disgyblion yn hwyr i'r wers. - Un ochr o'r dosbarth yn fwy swnllyd na'r ochr arall. - Trafodaethau yn dechrau yn ystod y dasg.

Atodiad 2**NODIADAU ARSYLWI / MAES**

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/19
Manylion y wers: - Nodweddion arddull - Trafod cerdd Aberfan a'u Dadansoddi. - Blwyddyn 9, Gwers 1
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) - Disgyblion ar y cyfan yn canolbwyntio. Cwestiynau yn cael ei gofyn i bawb. - Disgyblion yn gofyn cwestiynau- dangos dealltwriaeth a bod nhw'n canolbwyntio ar ddysgu.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) - Gwers wedi dechrau gyda atgof i nodweddion arddull. - Pwrpas y wers oedd i ddadansoddi cerdd. - Gweithgaredd oedd yn neud i'r disgyblion i lenwi mewn bylchau'r cerdd gyda geiriau- gwneud iddynt ddeall y gerdd a beth mae'n dweud.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Roedd y disgyblion yn deal beth oeddent am neud. Os oedd amheuaeth, roeddent yn gofyn.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Roedd cwestiynau yn ddilynol- roedd rhaid ymhelaethu ar atebion plant eraill.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? - Roedd nifer o gwestiynau yn cael ei gofyn. Cwestiynau agored. Gofyn cwestiynau i bawb, hyd yn oed y rhai oedd ddim yn cyfrannu gymaint. - Athrawes yn mynd o gwmpas y dosbarth yn aml. Disgyblion yn darllen eu atebion nol i weddill y dosbarth.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? - Gofyn cwestiynau sy'n berthnasol i'r Byd heddiw. E.E enghraifft o bobl yn trio dweud rhywbeth a dyw pobl ddim yn gwranddo. - Un disgybl yn siarad ac yn chwerthin yn ystod y wers. Ar ol cael ei symud, roedd yn bihafio'n well ac yn ymrwymo mwy yn y wers. - Roedd disgyblion yn gofyn cwestiynau am y gwaith.

Atodiad 3**NODIADAU ARSYLWI / MAES**

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/19
Manylion y wers: - Edrych ar Barciau Cenedlaethol. - Manteision ac anfanteision o wahanol ffurf o ddiogelu'r Parciau Cenedlaethol.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) - Roedd y myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu, digon o gwestiynau yn cael ei ofyn, felly yn cadw sylw'r dosbarth.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) - Pwrpas y wers oedd i ateb cwestiwn arholiad papur arholiad. - Edrych ar fanteision ac anfanteision. - Edrych ar ddwy enghraifft gwahanol o atebion i'r cwestiwn. - Ymarfer ateb y cwestiwn.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Roedd y myfyrwyr yn glir am beth roeddent am neud a sut i'w wneud yn dda, tasgau wedi'u esbonio'n glir. - Athrawes yn sicrhau bod pawb yn gwrando pan mae hi'n esbonio'r dasg.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) - Gofyn cwestiynau i bawb. - Herio- gofyn i fod yn feirniadol.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? - Gofyn cwestiynau am y gwaith o'r wers diwethaf. Gofyn iddynt adrodd atebion eu gwaith yn ol. - Ar ddiwedd y wers- crynhoi/mynd dros y gwaith trwy gofyn cwestiynau.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? - Un disgybl yn tori ar draws ateb disgybl arall pan oedd yn ateb cwestiwn. - Disgyblion yn sibrawd pan roedd yr athrawes yn siarad.

Atodiad 4**NODIADAU ARSYLWI / MAES**

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad:02/10/19
Manylion y wers:- Gwers Daearyddiaeth Blwyddyn 8 - Edrych ar beryglon corwyntoedd. - Rhagfynegi ar gyfer ymchwiliad.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) - Tasg cyntaf yn gwaith par- pawb yn trafod y gwaith. - Pawb yn gwrando ar y wybodaeth gyflwynwyd.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) - Pwrpas y wers oedd i adnabod y peryglon o gorwyntoedd ac adnabod pa pheryglon oedd y fwyaf difrifol. - Clip fideo yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno'r peryglon. - Rhaid i'r disgyblion nodi pam oedd y peryglon yn beryglus. - Rhagfynegi os oedd un o'r peryglon yn achosi mwy o farwolaethau na'r rhai arall.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Roedd y tasgau wedi'u gosod yn glir ac yn drefnus. Pawb yn gweithio ar yr un dasg. - Roedd yr athrawes yn gofyn cwestiynau am atebion y disgyblion.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) - Roedd y wers yn hawdd i'w ddilyn. - Athrawes yn gofyn iddynt ymhelaethu are eu atebion.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? - Gofyn cwestiynau yn gyson ar ol pob tasg. Yn ystod pob tasg, roedd yr athrawes yn amgylchynu'r dosbarth yn gweld os roedd pawb yn deal.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? - Gofynnodd yr athrawes i un disgybl i ddarllen darn o ysgrifen o fwcledi'r disgyblion allan i'r dosbarth- gwirfoddolodd un disgybl i ddarllen. - Defnyddio clip fideo o YouTube i gyflwyno gwybodaeth.

Atodiad 5

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/19**Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus):** Cwestiynu pawb yn y dosbarth

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	- Teimlaf fy mod wedi ysbrodoli gan syniad yr athrawes o sicrhau bod pawb yn y dosbarth yn ateb cwestiynau a'r ffordd roedd yr athrawes yn neud hyn.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	- Roedd y cwestiynu yn effeithiol oherwydd roedd yn sicrhau ymrwymiad pawb i'r wers a bod pawb yn cyfrannu. - Roedd yn sicrhau ac yn gorfodi pawb i dalu sylw ac i ganolbwyntio. - Roedd hefyd yn asesu dealltwriaeth y disgyblion yn gyson. - Gormod o gwestiynau, felly yn cymryd rhan fwyaf o'r gwers i fyny.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	- Sicrhau bo'r dull yma o gwestiynu pawb yn y dosbarth yn parhau ac yn cael ei ddefnyddio'n aml. Hefyd sicrhau amrywiaeth o gwestiynau ac yn herio'r disgyblion mor gymaint â phosib. - Gall achos yr elfen siomedig bod oherwydd roedd yr athrawes moen cwestiynu pawb yn y gwers, ac felly roedd llawer o gwestiynau'n cael eu gofyn.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gellid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	- Rhaid ceisio cael y cydbwysedd effeithiol rhwng cwestiynu a gweithgareddau arall y wers. - Rhaid darganfod ffurf eraill o asesu dealltwriaeth yn gyflym ac yn hawdd.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 6

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Camau Ymddygiad

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	- Teimlais yn eithaf anghyfforddus tra bo'r plenty yn chwerthin ac yn bod yn anghwrtais yn ystod y wers a phan roedd yr athrawes yn siarad. - Pan ddefnyddiwyd y camau ymddygiad, roeddwn yn teimlo'n fwy cyfforddus oherwydd roedd yn rheolaeth da o'r dosbarth gan yr athrawes.
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	- Roedd y ffordd gwnaeth yr athrawes delio gyda'r plentyn yn dda. Roedd awdurdod clir gyda'r athrawes a gwnaeth ddefnyddio'r proses disgyblu yn effeithiol gan fynd trwy'r camau ymddygiad. - Yr elfen siomedig oedd ymddygiad y disgybl yn y lle cyntaf. Roedd yn eithaf clir bo'r disgybl yn eistedd arbwys un o'i ffrindiau â oedd yn cyfrannu at yr ymddygiad yma.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i> <i>"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	- Roedd y camau ymddygiad a ddefnyddiwyd yn effeithiol gan fo'r disgybl yn cael llai o amhariad ar weddill y dosbarth. - Roedd hefyd yn galluogi'r disgybl i weithio'n well. - Dylai'r disgybl ddim wedi bod yn eistedd arbwys ei ffrind yn y lle gyntaf. Efallai bo'r disgybl ddim yn hoff o'r pwnc.
Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gellid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	- Sicrhau bo'r disgybl yn eistedd mewn lle gwahanol a ddim arbwys ei ffrindiau oherwydd dyna beth ymddangosir oedd y broblem. - Os dyw hynny ddim yn gweithio, bu rhaid symud y disgybl i ddosbarth arall.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 7

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/19**Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus):** Dysgu oddi wrth gyd-ddisgyblion

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	- Roedd yn ddiddorol i weld sut oedd ymateb y disgyblion i'r athro yn gofyn iddynt i esbonio'r gwaith i rywun a oedd ddim yn deall. - Teimlaf fel fy mod wedi ysbrydoli gan y syniad.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	- Roedd y profiad yn galluogi'r disgyblion a oedd yn helpu eraill i gadarnhau ac i roi sialens i'w ddealltwriaeth. - Roedd esboniad o rywun gwahanol, oni bai'r athro, yn gallu helpu'r disgyblion yn fwy effeithiol. - Efallai doedd yr esboniad ddim mor glir i rai o'r disgyblion a doedd y disgyblion ddim trwy'r amser yn trafod am y gwaith.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	- Sicrhau bo'r ffordd yma o helpu disgyblion sydd yn ffeindio'r gwaith yn anodd yn digwydd mor gymaint ag y gallai ymhob wers. - Achos yr elfen siomedig oedd bo'r disgyblion a oedd ddim yn deall y gwaith yn siarad am bethau amherthnasol i'r gwaith.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gellid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	- Rhaid sicrhau bo'r disgyblion sy'n helpu yn canolbwyntio ar y dasg a ddim yn cael eu gwrthdynnu gan ddisgyblion eraill. - Sicrhau bo'r disgyblion ddim yn colli y gallu i ganolbwyntio ar dasg. - Edrych yn fanylach i fanteision ac anfanteision y digwyddiad yma o ddefnyddio cyd-ddisgyblion i help eraill.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 8

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/19**Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus):** Cynllun eistedd

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	- Wrth gael y profiad o'r ddigwyddiad, teimlaf yn flin dros y disgyblion a oedd yn dawl ac eisiau dilyn y wers heb ffws. Teimlaf yn rhwystredig hefyd oherwydd doedd y wers ddim yn llifo'n dda gan fod sgysiau yn digwydd yn aml.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	- Roedd un rhan o'r dosbarth yn canolbwyntio'n galed yn ystod y wers. - Roedd y wers yn un rhyngweithiol iawn, doedd neb yn ofn gofyn cwestiwn. - Roedd sgysiau a oedd yn amherthnasol i waith y wers yn dechrau'n aml. Bron pob tro gofynnodd yr athro cwestiwn. - Roedd sylw'r athro a'r disgyblion eraill wedi'u thynnu at y sgysiau.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	- Roedd cadw'r disgyblion tawel gyda'u gilydd yn effeithio, ond er hyn, roedd rhan arall y dosbarth yn eithaf tarfol. - Achos yr elfen siomedig oedd cynllun eistedd y dosbarth. Roedd rhan fwyaf o'r disgyblion siaradus yn eistedd arbwys ei gilydd, felly'n achosi trafodaethau yn aml.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gellid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	- Bu rhaid ymchwilio i ffurf effeithiol o gynlluniau eistedd dosbarthiadau sydd gyda disgyblion siaradus. - Hefyd edrych ar beth mae'r digwyddiad yma yn neud i ddysgu'r disgyblion yn y dosbarth, trwy'r damcaniaeth adeiladaeth cymdeithasol.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Rhestr Cyfeiriadau

Adler, P. A. ac Adler, P. (1994). *Observational techniques*. Argraffiad N. K. Denzin ac Y. S. Lincoln, *Handbook of qualitative Research*. tud. 377-392. Thousand Oaks, CA, US: Sage Publications, Inc.

Baker, L.M. (2006) 'Observation: A Complex Research Method', *Research Methods*, 55(1), tud. 171-189. Darllenwyd: 13 Hydref 2019. URL: <https://www.ideals.illinois.edu/bitstream/handle/2142/3659/ResearchProcess.pdf?sequence=2>

Brookfield, S. (1998) 'Critically Reflective Practice'. *The Journal of Continuing Education in the Health Professions*. 18. Tud. 197-205. Darllenwyd: 28 Hydref 2019. URL: <http://www.anitacrawley.net/Resources/Articles/Brookfield.pdf>

Cohen, L., Manion, L. a Morrison, K. (2007) *Research Methods In Education*. 6ed Argraffiad. Oxon: Routledge.

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. URL: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf>

Estyn (2014) *Adroddiad ar Ysgol Gyfun* [REDACTED] Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6744097> (Darllenwyd: 13 Hydref 2019).

Fernandes, AC. Huang, J. a Rinaldo, V. (2015). ' Does Where A Student Sits Really Matter?- The Impact of Seating Locations on Student Classroom Learning'. *IJAES*. 10(1). Tud. 66-77. Darllenwyd: 28 Hydref 2019. URL: <https://pdfs.semanticscholar.org/b653/f362b5201ca792c9c5256ed7aeb25de12c00.pdf>

Finlay, L. (2008) 'Reflecting on 'Reflective practice''. *PBPL*. 52. Tud. 1-27. Darllenwyd: 29 Hydref 2019. URL: [https://www.open.ac.uk/opencetl/sites/www.open.ac.uk.opencetl/files/files/ecms/web-content/Finlay-\(2008\)-Reflecting-on-reflective-practice-PBPL-paper-52.pdf](https://www.open.ac.uk/opencetl/sites/www.open.ac.uk.opencetl/files/files/ecms/web-content/Finlay-(2008)-Reflecting-on-reflective-practice-PBPL-paper-52.pdf)

Flick, U. (1998) *An Introduction to Qualitative Research*. London: Sage.

Haghighi, M. a Jusan, M. (2012) 'Exploring Students Behavior on Seating Arrangements in Learning Environment: A Review'. *Social and Behavioral Sciences*. 36. Tud. 287-294. Darllenwyd: 28 Hydref 2019. URL: <https://pdf.sciencedirectassets.com/277811/1-s2.0-S1877042812X00065/1-s2.0-S1877042812004995/main.pdf>

Howard, T. (2003). Culturally Relevant Pedagogy: Ingredients for Critical Teacher Reflection'. *Theory Into Practice*. 42 (3). Tud. 195-202. Darllenwyd: 28 Hydref 2019. URL: <https://pdf.sciencedirectassets.com/277811/1-s2.0-S1877042812X00065/1-s2.0-S1877042812004995/main.pdf>

Jay, J. a Johnson, K. (2002) 'Capturing complexity: a typology of reflective practice for teacher education'. *Teaching and Teacher Education*. 18. Tud. 73-85. Darllenwyd: 27 Hydref 2019. URL: https://60e5351b-a-62cb3a1a-s-sites.googlegroups.com/site/comunitariosdelcentro/presentismo/reflective_teacher.pdf?attach=ANoY7crFyOtQi2K0GrxL5UI8VDZKmWZ_mQPHMM4JLsXQGgOgrDo5fNGK3LUB_abi0ClcxnCZ265LwyHXPiC44dEyWsFr3f3dabRu1WUj6Ps060wb4mYqi5b4D66YGjhM45SKRc4I55xBNfpfS7tFn9FHOTVJiPywSNWuRAQgtGfS1I4Z-12ftvN6f1WANXOEoTKLM6Lu29QeCq2_ONtBya09wcmeGwifmbp4YX83VeB7uxE2J4XBb92bgwjzIN0DGDt1fVQotlNJ&attredirects=0

Llywodraeth Cymru. (2017). *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*. URL: https://dera.ioe.ac.uk/30138/4/170926-education-in-wales-cy_Redacted.pdf

Llywodraeth Cymru (2017). *Professional standards for teaching and leadership*. URL: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/fc/a7/a4/e2/e348428381e68434ea93f611/professional-standards-for-teaching-and-leadership-interactive-pdf-for-pc.pdf>

Llywodraeth Cymru (2018) *Fy Ysgol Leol: Ysgol Gyfun* [REDACTED] Ar gael yn: mylocalschool.gov.wales/school/6744097?lang=cy (Darllenwyd: 13 Hydref 2019).

Minchen, B.J. (2007) *The Effects of Classroom Seating on Students' Performance in a High School Science Setting*. Unpublished PhD thesis. State University of New York College. Darllenwyd: 20 Hydref 2019. URL: https://digitalcommons.brockport.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1425&=&context=ehd_theses&=&sei-redir=1&referer=https%253A%252F%252Fscholar.google.co.uk%252Fscholar%253Fhl%253Den%2526as_sdt%253D0%25252C5%2526q%253Dminchen%252Bthe%252Beffects%252Bof%252Bclassroom%252Bseating%252Bon%252Bstudents%2526btnG%253D#search=%22minchen%20effects%20classroom%20seating%20students%22

Pritchard, A. (2009) *Ways Of Learning*. 2. Oxon: Routledge.

Pritchard, A. a Woollard, J. (2010) *Psychology of the Classroom: Constructivism and Social Learning*. Oxon: Routledge.

Powell, K. C. a Kalina, C. J. (2009). Cognitive and social constructivism: Developing tools for an effective classroom. *Education*. 130(2). Tud. 241-250. Darllenwyd: 25 Hydref 2019. URL: <https://docdrop.org/static/drop-pdf/ConstructivismDay1-In36v.pdf>

Ruhl, K. a Wannarka, R. (2008). 'Seating arrangements that promote positive academic and behavioral outcomes: A review of empirical research'. *Support for Learning*, 23(2), 89-93.

Shandomo, H. (2010) 'The Role of Critical Reflection in Teacher Education'. *School-University Partnerships*. 4 (1). Tud. 101-113. Darllenwyd: 28 Hydref 2019. URL: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ915885.pdf>

Simmons, K. Carpenter, L. Crenshaw, S. a Hinton, V. (2015) 'Exploration of Classroom Seating Arrangement and Student Behavior in a Second Grade Classroom'. *Georgia Educational Researcher*. 12 (1). Tud. 51-68. Darllenwyd: 27 Hydref 2019. URL: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1194750.pdf>

Tripp, D. (1993) *Critical Incidents In Teaching*. Oxon: Routledge.

Tripp, D. (2012) *Critical Incidents In Teaching*, Oxon: Routledge.

Wales Online (2019) 'Ysgol Gyfun [REDACTED]', *Wales Online*, 20 Mehefin. Ar gael yn: [https://www.walesonline.co.uk/news/local-news/ysgol-gyfun-\[REDACTED\]-7540649](https://www.walesonline.co.uk/news/local-news/ysgol-gyfun-[REDACTED]-7540649) (Darllenwyd: 13 Hydref 2019).

Wasnock, D.P. (2010) *Classroom Environment: Emphasis on Seating Arrangement*. Unpublished PhD thesis. St. John Fisher College. Darllenwyd: 26 Hydref 2019. URL: https://fisherpub.sjfc.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1016&=&context=mathcs_etd_masters&=&sei-redir=1&referer=https%253A%252F%252Fscholar.google.co.uk%252Fscholar%253Fhl%253Den%2526as_sdt%253D0%25252C5%2526q%253Dwasnock%252Bclassroom%252Benvironment%2526btnG%253D#search=%22wasnock%20classroom%20environment%22